

MIN Y TRAETH

BWLETIN YSGOL EIFIONYDD



GAIR GAN Y PENNAETH

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Wrth edrych yn ôl ar dymor yr haf, hoffwn ddiolch i'n disgyblion, staff, rhieni a'r gymuned am eu cefnogaeth. Mae wedi bod yn dymor prysur a llwyddiannus iawn, yn llawn cyfleoedd i ddysgu, cystadlu, perfformio a dathlu llwyddiannau ar draws pob agwedd o fywyd yr ysgol. Wrth i ni edrych ymlaen at wyliau'r haf, dymunaf ddiolch i bawb am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Mwynhewch yr haf, a braf fydd eich croesawu'n ôl ym mis Medi ar gyfer blwyddyn ysgol newydd.

Mr Dewi Rhys Jones

Gwella Cyfleusterau'r Ysgol

Diolch yn fawr iawn i'n disgyblion, rhieni a gofawyr, ac aelodau o staff am eu hadborth a'u mewnbwn gwerthfawr ynghylch cyfleusterau'r toiledau. Mae gwrandao ar lais ein dysgwyr a'n cymuned yn bwysig iawn i ni, ac o ganlyniad bydd gwaith sylweddol yn cael ei wneud dros wyliau'r haf i wella'r cyfleusterau. Bydd toiledau mawr y bechgyn yn cael eu hadnewyddu'n llwyr. Yn ogystal, bydd dau doiled staff ar y llawr uchaf yn cael eu huwchraddio i safonau modern. Bydd toiledau Blwyddyn 7 a toiledau'r merched hefyd yn derbyn gwaith cynnal a chadw ysgafn, yn ystod y misoedd nesaf gan wella eu golwg a'u cyflwr cyffredinol. Er mai tua chwe blynedd yn ôl y cafodd toiledau'r bechgyn eu hailadeiladu gan yr Awdurdod Lleol, nid yw'r deunyddiau a ddefnyddiwyd wedi profi'n ddigon cadarn nac o'r safon yr oeddem wedi'i ddisgwyl. Bydd yr ysgol felly'n buddsoddi mewn cyfleusterau newydd o ansawdd uchel, wedi'u cynllunio i wrthsefyll defnydd dyddiol prysur, fel y byddant yn barod i'w defnyddio erbyn mis Medi. Mae'r buddsoddiad hwn yn enghraifft o sut mae llais y dysgwr a'n cymuned ysgol yn llywio penderfyniadau sy'n gwella profiad dyddiol pawb yn Ysgol Eifionydd.

Mae gwelliannau pellach hefyd ar y gweill yn y cwad rhwng yr Adran Dylunio a Thechnoleg a'r prif adeilad. Bydd y canopi presennol yn cael ei ymestyn er mwyn darparu mwy o loches i ddisgyblion rhag y glaw a'r haul. Bydd yr ardd fach ger yr ystafell Decstiliau hefyd yn cael ei hailddatblygu dros amser yn fan tawel, diogel a chroesawgar i gefnogi lles disgyblion sydd angen llecyn i ymlacio neu gael amser allan yn ystod y diwrnod ysgol. Yn ogystal â bod yn ofod lles, bydd yr ardd yn ardd ddysgu lle bydd disgyblion yn cael cyfle i dyfu planhigion, llysiau a ffrwythau fel rhan o'u profiadau dysgu ym maes lechyd a Lles, gan feithrin dealltwriaeth o les, cynaliadwyedd a byw'n iach.

Yn ogystal, bydd yr ardal balmartog yn cael ei hailwynebu gan fod nifer o'r cerrig palmant wedi mynd yn rhydd ac yn anwastad. Bydd hyn yn sicrhau arwyneb mwy diogel a hygyrch i bawb.

Prosiect y Grid Cenedlaethol

Dros y blynnyddoedd nesaf, bydd Ysgol Eifionydd yn profi un o'r newidiadau mwyaf i'w safle ers degawdau o ganlyniad i brosiect seilwaith trydanol cenedlaethol Pentir-Trawsfynydd. Mae'r prosiect hwn, sy'n cael ei arwain gan y Grid Cenedlaethol (National Grid), yn rhan o raglen genedlaethol i gryfhau'r rhwydwaith trydan yng Ngogledd Cymru a sicrhau cyflenwad trydan mwy cadarn ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn galluogi'r gwaith hwn, bydd y Grid Cenedlaethol yn defnyddio rhan sylweddol o dir yr ysgol. O tua Gwanwyn 2027, bydd cae pêl-droed yr ysgol a'r ddôl gyfagos yn cael eu cymryd allan o ddefnydd am gyfnod o dros dair blynedd. Disgwylir y bydd y tir yn cael ei ddychwelyd i'r ysgol wedi'i ail-wynebu a'i adfer yn llawn ar ddiwedd y prosiect.

Bydd hyn yn golled sylweddol i fywyd bob dydd yr ysgol. Mae'r cae pêl-droed yn cael ei ddefnyddio gan gannoedd o ddisgyblion bob wythnos yn ystod amseroedd egwyl a chinio ar gyfer gemau pêl-droed a gweithgarwch corfforol anffurfiol. Yn yr un modd, mae'r ddôl gyfagos yn fan poblogaidd iawn yn ystod misoedd yr haf, lle mae llawer o ddisgyblion yn dewis eistedd, cymdeithasu ac ymlacio yn yr awyr agored.

Er bod colli'r mannau hyn yn siomedig, mae'r Grid Cenedlaethol wedi cytuno ar nifer o fesurau lliniaru i gefnogi'r ysgol yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd hyn yn cynnwys cyfraniad tuag at ddefnydd o gyfleusterau Canolfan Hamdden Glaslyn ar adegau priodol, defnydd o gyfleusterau athletau Treborth, ynghyd â chyllid ar gyfer bysiau ychwanegol er mwyn galluogi timau ysgol i deithio i gemau oddi cartref. Gan na fydd cae'r ysgol ar gael, bydd pob gêm bêl-droed ysgol yn cael ei chwarae oddi cartref yn ystod y cyfnod hwn.

Yn sgil y defnydd o dir yr ysgol, derbyniodd Cyngor Gwynedd dros £95,000 mewn derbyniad cyfalaf. Rydym yn falch iawn bod y Cyngor wedi cytuno i glustnodi'r cyllid hwn er budd Ysgol Eifionydd. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Corff Llywodraethu ac asesiad o anghenion y safle, bydd yr ysgol yn defnyddio'r cyllid i adnewyddu ac uwchraddio'r cyrtiau tenis, sydd ar hyn o bryd mewn cyflwr gwael iawn. Bydd y gwaith yn cynnwys ail-wynebu'r cyrtiau, gosod ffensys newydd ac uwchraddio'r cyfleuster yn gyffredinol. Bydd hyn yn darparu adnodd chwaraeon modern, diogel ac o ansawdd uchel ar gyfer gwersi Addysg Gorfforol ac gweithgareddau allgyrsiol. Er na all unrhyw ddatblygiad gymryd lle colli'r cae pêl-droed a'r ddôl yn ystod y gwaith adeiladu, credwn fod y buddsoddiad hwn yn gadael etifeddiaeth gadarnhaol a pharhaol i ddisgyblion presennol, cenedlaethau'r dyfodol a'r gymuned ehangach.

Hoffem ddiolch i'r Grid Cenedlaethol am eu cydweithrediad drwy gydol y broses ac i Gyngor Gwynedd am gefnogi'r buddsoddiad hwn yn Ysgol Eifionydd. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni a'r gymuned wrth i'r prosiect ddatblygu.

Pennod newydd i Gymuned Ysgol Eifionydd

Wrth i flwyddyn ysgol arall ddirwyn i ben, rydym yn ffarwelio â rhai aelodau gwerthfawr iawn o staff ac yn croesawu wynebau hen a newydd yn ôl i Ysgol Eifionydd.

Ar ôl 8 mlynedd o wasanaeth ymroddgar i Ysgol Eifionydd, bydd Mrs Glenda Murray, Pennaeth Dyniaethau ac athrawes Ddaearyddiaeth, yn ymddeol. Yn ystod ei gyrfa yn yr ysgol, mae wedi ysbrydoli cenedlaethau o ddisgyblion ac wedi trefnu nifer o deithiau addysgol gwerthfawr, yn lleol ac ar draws Ewrop, gan gynnwys ymweliadau cofiadwy â Ffrainc a'r Eidal. Bu'r teithiau hyn yn brofiadau arbennig a bythgofiadwy i lawer o ddisgyblion, gan gyfoethogi eu dysgu a'u hatgofion o'u cyfnod yn Ysgol Eifionydd. Hoffem ddiolch yn ddiffuant iddi am ei hymroddiad, ei harweinyddiaeth a'i chyfraniad gwerthfawr dros y blyneddau, a dymunwn ymddeoliad hir, iach a hapus iawn iddi.

Rydym hefyd yn lled-ffarwelio â Mrs Helen Puw, sydd wedi dysgu Mathemateg yn Ysgol Eifionydd ers 31 o flynyddoedd. Mae Mrs Helen Puw wedi ennill parch mawr disgyblion, rhieni a chydweithwyr fel ei gilydd, ac mae ei disgyblion wedi sicrhau canlyniadau rhagorol mewn Mathemateg yn gyson dros y blyneddau. Rydym yn hynod ddiolchgar ei bod wedi cytuno i barhau i helpu'r ysgol am ddau ddiwrnod yr wythnos, gan ganolbwyntio'n arbennig ar gefnogi ein disgyblion TGAU. Diolchwn iddi am ei gwasanaeth hir, ei safonau uchel a'i hymroddiad eithriadol i'r ysgol.

Byddwn hefyd yn ffarwelio â Mrs Bethan Tipton, sydd yn ymddeol ar ôl gwasanaethu'r ysgol fel uwch-gymhorthydd. Mae Mrs Bethan Tipton wedi cynorthwyo nifer fawr o ddisgyblion dros y blyneddau, gan gynnwys drwy ei gwaith gwerthfawr yn cefnogi iechyd meddwl a lles disgyblion fel rhan o gynllun ELSA. Mae ei gofal a'i phersonoliaeth wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau llawer o bobl ifanc. Diolchwn yn fawr iawn iddi am ei holl waith a dymunwn bob hapusrwydd iddi yn ei hymddeoliad.

Rydym hefyd yn ffarwelio â Miss Lois Evans, ac yn estyn croeso cynnes yn ôl i Mrs Llio Griffiths yn dilyn ei chyfnod mamolaeth. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Miss Lois Evans wedi gwneud cyfraniad arbennig i Ysgol Eifionydd, gan addysgu ar draws y Meysydd Iechyd a Lles a'r Celfyddydau Mynegiannol, yn ogystal ag arwain a chefnogi nifer fawr o weithgareddau, cystadlaethau a digwyddiadau ysgol. Mae ei hegni, ei brwdfrydedd a'i pharodrwydd i droi ei llaw at unrhyw her wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol, ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei holl waith a'i hymroddiad. Wrth i Miss Lois Evans ddechrau pennod newydd, dymunwn bob llwyddiant iddi yn y dyfodol. Ar yr un pryd, mae'n bleser mawr croesawu Mrs Llio Griffiths yn ôl i gymuned Ysgol Eifionydd. Rydym yn falch iawn o'i chael yn ôl gyda ni ac edrychwn ymlaen at ei chyfraniad unwaith eto yn y flwyddyn sydd o'n blaenau.

Wrth edrych ymlaen at y flwyddyn ysgol newydd, byddwn yn croesawu Mr Ifan Jones i Ysgol Eifionydd ym mis Medi fel ein Pennaeth Dyniaethau ac athro Ddaearyddiaeth newydd. Yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn, bydd Mr Elgan Rowlands hefyd yn ymuno â'r Adran Fathemateg, edrychwn ymlaen yn fawr at eu croesawu i gymuned yr ysgol.

Rydym hefyd yn ddiweddar wedi croesawu Ms Alaw Owen a Ms Catrin Jones i'r ysgol fel cymorthyddion un-i-un Anghenion Dysgu Ychwanegol. Byddant yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ac yn cyfrannu at waith pwysig yr ysgol wrth gefnogi eu hanghenion unigol.

Dymunwn yn dda iawn i'r rhai sy'n ymddeol ac yn dechrau pennod newydd, a chroeso cynnes iawn i'r aelodau newydd o staff sydd wedi ymuno â ni neu a fydd yn ymuno â ni yn ystod y flwyddyn.



Llongyfarchiadau i'n Darllenwyr!

Llongyfarchiadau mawr i Cora, Swyn a Gwawr am gynrychioli Ysgol Eifionydd yn yr Ornest Ddarllen. Bu'r tair yn llysgenhadon gwych i'r ysgol, gan ddangos brwdfrydedd wrth gymryd rhan yn y gystadlaethau. Rydym yn hynod falch o'u hymdrechion a'u hymrwymiad, ac yn eu llongyfarch ar eu cyflawniad. Da iawn, genod!

Dringo'r Ysgol

Dyma flas o'r ffeithluniau Cymraeg a gynhyrchwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 7 fel rhan o'r uned *Dringo'r Ysgol* a chystadlaeth gwaith cartref ar gyfer yr Eisteddfod ysgol. Gwaith gwych Gwern ac Alena!



Olrhain Arwyr ac Arwresau Tremadog

Fel rhan o'u hastudiaethau yn yr Adran Saesneg, cafodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 7 gyfle i grwydro o amgylch Tremadog i ymweld â lleoliadau hanesyddol sy'n rhan o'u thema, Arwyr ac Arwresau Cymru. Yn ystod y daith, ymwelodd y disgyblion â man geni Lawrence o Arabia ac â Phlas Tan-yr-Allt, cartref William Alexander Madocks ac, am gyfnod, y bardd a'r awdur enwog Percy Bysshe Shelley. Roedd y profiad yn gyfle gwych i ddod â'u dysgu'n fyw drwy gysylltu'r hanes a'r llenyddiaeth â'r lleoedd go iawn sydd ar garreg ein drws. Hoffem ddiolch yn arbennig i berchnogion Plas Tan-yr-Allt am eu caredigrwydd wrth ganiatáu i ni ymweld.



Profiad Unigryw yn Dysgu Cneifio

Cafodd criw o ddysgyblion o Flynnyddoedd 7, 8 a 9 ddiwrnod gwerth chweil ddydd Mercher wrth ddysgu'r grefft o gneifio. I lawer, roedd yn brofiad hollol newydd, tra cafodd eraill gyfle i ddatblygu eu sgiliau ymhellach o dan arweiniad arbenigwyr lleol. Roedd yn ddiwrnod gwerth chweil yn dysgu sgiliau ymarferol a chael hwyl a phrofiadau newydd, a chafodd pawb fudd mawr ohono. Hoffem estyn diolch o galon i Dafydd Rhent, Dafydd Gwag y Noe, Korey ac Anna am rannu eu hamser a'u harbenigedd, i Guto Llwyn Mafon am ddarparu'r defaid, ac i griw cantîn yr ysgol am baratoi gwledd arbennig i ginio. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn ac yn brofiad na fydd y disgyblion yn ei anghofio ar frys.



Prynhawn o Ganu gyda Mei Gwynedd

Cafodd disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 brynhawn llawn hwyl ac egni yng nghwmni Mei Gwynedd mewn sesiwn codi canu yn Y Ganolfan, Porthmadog. Roedd y sesiwn yn gyfle gwych i'r disgyblion ganu, mwynhau cerddoriaeth fyw a magu hyder, gan greu awyrgylch arbennig drwy gydol y prynhawn. Hoffem estyn diolch yn fawr i Grant y Gymraeg am noddi'r sesiwn a rhoi'r cyfle gwerthfawr hwn i'n disgyblion, ac i Mei Gwynedd am sesiwn ysbrydoledig a hwyliog a fwynhawyd yn fawr gan bawb. Diolch am brynhawn arbennig!



Llongyfarchiadau MAWR i Gast Lleian Od!

Llongyfarchiadau mawr i gast sioe gerdd Gwasanaeth Cerdd ar berfformiad arbennig o Lleian Od yn Galeri. Rydym yn falch iawn bod pum disgybl o Ysgol Eifionydd wedi bod yn rhan o'r cynhyrchiad llwyddiannus hwn. Yn y llun (o'r chwith i'r dde) mae Elain Siôn, Elin Jones, Erain Jên, Ffion Thomas a Gwenllian Thomas. Mae cymryd rhan mewn cynhyrchiad o'r safon hwn yn gofyn am ymroddiad, talent ac oriau lawer o ymarfer, ac mae'r pump wedi bod yn llysgenhadon arbennig i'r ysgol. Rydym yn hynod falch ohonoch, genod.

Mathemateg ar Waith gyda Wynne Construction

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 Setiau 1 a 2 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy arbennig dan arweiniad Wynne Construction, gan ddarganfod sut mae Mathemateg yn chwarae rhan allweddol ym myd gwaith. Yn ystod y sesiwn, bu'r disgyblion yn camu i esgidiau Syrffwr Meintiau (Quantity Surveyor), gan weithio mewn timau i gyfrifo meintiau lloiau, costau deunyddiau ar gyfer gwahanol fathau o dai a chymhwysyo gostyngiadau – yn union fel y byddai'n digwydd mewn prosiect adeiladu go iawn. Roedd y gweithdy yn gyfle gwych i weld sut mae'r medrau mathemategol a ddysgir yn yr ystafell ddosbarth yn cael eu defnyddio'n ymarferol yn y gweithle, gan ddatblygu sgiliau datrys problemau, cydweithio a chyfathrebu. Hoffem ddiolch yn fawr i dîm Wynne Construction am ddarparu profiad mor werthfawr ac ysbrydoledig i'n disgyblion. Diolch hefyd i Gyrfa Cymru am drefnu'r profiad.



Gwasanaeth Diwedd Tymor Arbennig

Daeth y tymor i ben gyda gwasanaeth arbennig a oedd yn gyfle i ddatlu, diolch a myfyrio. Yn ystod y gwasanaeth, estynnwyd diolch diffuant i'r aelodau hynny o staff sy'n ein gadael eleni am eu hymroddiad a'u cyfraniad gwerthfawr i gymuned Ysgol Eifionydd dros y blynnyddoedd. Ar yr un pryd, roedd yn bleser mawr croesawu rhai aelodau o staff yn ôl ac edrych ymlaen at bennod newydd ym mis Medi. I gloi'r gwasanaeth ar nodyn arbennig, cafwyd perfformiad anhygoel gan Panorama, band newydd sbon o Flwyddyn 7 a ffurfiwyd ar gyfer yr Eisteddfod ysgol. Cyflwynodd y band fersiwn wych o Smells Like Teen Spirit gan Nirvana, gan ennyn ymateb gwych gan y gynulleidfa ac, mae'n siŵr, fynd ag ambell athro ac athrawes yn ôl i'w dyddiau ysgol a'u harddegau! Llongyfarchiadau mawr i Joel, Deian, Iwan, Cynan ac Hayden am berfformiad mor hyderus a phroffesiynol. Mae'n amlwg bod talent arbennig gennych, ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weld beth fydd y dyfodol yn ei ddwyn i Panorama. Da iawn – mae dyfodol disglair iawn o'ch blaenau!



Ysbrydoliaeth Greadigol gyda Catrin Williams

Roedd yn bleser mawr croesawu'r artist Catrin Williams yn ôl atom i Ysgol Eifionydd i dreulio'r diwrnod gyda'n disgyblion.

Yn ystod ei hymweliad, rhannodd Catrin ei thaith a'i gyrfa lwyddiannus fel arlunydd proffesiynol, gan roi cipolwg ysbrydoledig ar y byd celf a'r cyfleoedd sydd ar gael yn y diwydiant creadigol. Yna cafodd disgyblion Blwyddyn 7 a disgyblion TGAU Celf a Dylunio Blwyddyn 10 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdai ymarferol, gan astudio ei gwaith a datblygu eu syniadau creadigol eu hunain.

Roedd yn ddiwrnod hynod werthfawr, a chafodd y disgyblion eu hysbrydoli gan brofiad ac arbenigedd Catrin. Diolch yn fawr iawn i Catrin Williams am ei hamser, ei brwdfrydedd a'i hysbrydoliaeth.



Creadigrwydd yn Disgleirio

Mae wedi bod yn dymor arbennig o brysyr a llwyddiannus i Gyfadran i-Greu, gyda'n disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu creadigrwydd, perfformio a chystadlu ar lwyfannau lleol a chenedlaethol.

Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd llwyddiannau ein disgyblion mewn cystadlaethau celf a cherdd. Cafodd Cynan Hughes lwyddiant arbennig yn Eisteddfod yr Urdd Rhanbarth Eryri, gan ennill ail wobwr yn y categorïau Ffotograff wedi'i Addasu (Blwyddyn 7-9) a Ffotograffiaeth Du a Gwyn, yn ogystal â thrydedd wobwr am ei gyfres o ffotograffau du a gwyn. Yn ogystal, enillodd Eleri Hinde y wobwr gyntaf am ei gwaith celf yn Eisteddfod Mynytho, tra llwyddodd Gwern Pugh i gyrraedd llwyfan Eisteddfod yr Urdd yn y categorïau Unawd Taro ac Unawd Piano i Flynyddoedd 7-9. Llongyfarchiadau hefyd i Gwen Prew, a dderbyniodd Gwpan Coffa Robin Gwynant am y chwaraewr mwyaf addawol yn Seindorf yr Oakley.

Yn yr ysgol, cafwyd Eisteddfod llwyddiannus dros ben i Flynyddoedd 7 ac 8, gyda disgyblion yn arddangos eu doniau ym meysydd Celf, Cerdd a Drama, gan ddathlu creadigrwydd a diwylliant Cymru. Cafodd disgyblion Blwyddyn 7 ac 8 hefyd gyfle i fwynhau gig arbennig gan Fand Tiwtoriaid Gwasanaeth Cerdd Gwynedd ac Ynys Môn, a fu'n brofiad ysbrydoledig i'n cerddorion ifanc.

Bu cyfleoedd gwerthfawr hefyd i ddysgu gan weithwyr proffesiynol. Cynhaliodd Ed Holden weithdy creadigol i ddisgyblion Blwyddyn 7, tra bu'r adran yn cydweithio ag Elgan o gwni'r Franwen ar y prosiect creadigol 'Fa'ma', gan roi profiadau newydd a chyffrous i'n dysgwyr.

Rydym yn hynod falch o'u llwyddiannau ac yn edrych ymlaen at fwy o gyfleoedd creadigol yn y flwyddyn ysgol nesaf.



Dyma gipolwg ar rai o'r dyluniadau ar gyfer brand newydd tai'r ysgol. Mae'n wych gweld ein disgyblion yn defnyddio eu sgiliau Dylunio a Thechnoleg i greu syniadau mor greadigol. Mae'r cynnydd wedi bod yn arbennig, ac edrychwn ymlaen at weld y dyluniadau buddugol yn cael eu datblygu'n eiconau swyddogol i'w defnyddio mewn gemau a chystadlaethau'r tai yn y dyfodol.

Dathlu Talent a Chreadigrwydd yn Eisteddfod yr Ysgol

Roedd Eisteddfod Ysgol Eifionydd unwaith eto yn ddiwrnod arbennig o ddathlu talent, creadigrwydd a diwylliant Cymreig. Cafodd disgyblion Flynyddoedd 7 ac 8 gyfle i berfformio, cystadlu a dangos eu doniau ar y llwyfan ac mewn amrywiaeth o gystadlaethau creadigol, gan gyfrannu at ddiwrnod llawn hwyl ac ysbryd cymunedol. Llongyfarchiadau mawr i ddisgyblion Blwyddyn 10 Dylunio Cynnyrch am eu creadigrwydd a'u dawn wrth ddylunio medalau arbennig ar gyfer Eisteddfod yr ysgol. Cipiodd Elis Jones y wobwr gyntaf eleni, gyda Elin Jones yn ail ac Ifan Wood yn drydydd. Roedd safon y gwaith yn eithriadol o uchel, ac roedd eu medalau yn ychwanegu elfen arbennig a phersonol at ddathliadau'r Eisteddfod. Diolch yn fawr i Miss Alaw Roberts am ei gwaith diflino yn cynllunio a chreu'r medalau, ac i Mrs Llio Dudley Roberts, Miss Siân Alun a Miss Lois Evans am eu brwdfrydedd, eu hymroddiad a'r oriau lawer a dreuliodd yn paratoi ac yn ymarfer gyda'r disgyblion cyn y diwrnod mawr.

Hoffem hefyd ddiolch yn fawr i Ffion Emyr am ddychwelyd i Ysgol Eifionydd i feirniadu'r cystadlaethau llwyfan, ac i Mrs Glenda Murray am arwain y diwrnod gyda'i phroffesiynoldeb a'i brwdfrydedd arferol, gan sicrhau bod popeth yn rhedeg yn esmwyth.

Llongyfarchiadau hefyd i'r tri thî am eu hymdrechion arbennig drwy gydol y dydd. Daeth tî Glaslyn i'r brig eleni gyda 800 o bwyntiau, ac yna Hebog gyda 685 o bwyntiau a Dwyfor gyda 675 o bwyntiau. Roedd y gystadleuaeth yn un agos iawn, gyda phawb yn cyfrannu at awyrgylch arbennig yr ŵyl.

Roedd yr Eisteddfod yn dyst i dalent, ymroddiad a chreadigrwydd ein disgyblion, ac rydym yn hynod falch o bawb a gyfrannodd at wneud y diwrnod yn llwyddiant ysgubol. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran a diolch i'r staff, y beirniaid a'r gwirfoddolwyr a helpodd i wneud y diwrnod mor llwyddiannus.



Dyma Cynan Hughes - un o ffotograffwyr swyddogol Eisteddfod yr ysgol, ochr yn ochr â Simi Cook. Gwnaeth y ddau waith arbennig o broffesiynol yn cofnodi uchafbwyntiau'r diwrnod ac yn dal yr holl eiliadau arbennig ar gamera. Gwych, hogia

Arloesi, Creadigrwydd a Phrofiadau Ymarferol yn yr Adran Dechnoleg

Mae wedi bod yn dymor hynod brysur a llwyddiannus yn Adran Dylunio a Thechnoleg, gyda disgyblion yn manteisio ar ystod eang o brofiadau creadigol ac ymarferol, yn yr ysgol ac yn y gymuned.

Llongyfarchiadau mawr i Annabelle Green, a gynrychiolodd yr ysgol yng nghystadleuaeth CogUrdd yn Eisteddfod yr Urdd, gan arddangos ei dawn a'i sgiliau coginio ar lwyfan cenedlaethol.

Yn ystod y tymor, cafodd disgyblion Blwyddyn 9 ymweliad gwerthfawr gan Sgiliau Bwyd a Diod, lle cawsant gipolwg ar yrfaeodd a chyflaeodd yn niwydiant bwyd a diod Cymru. Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 hefyd gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr o Brifysgol Bangor, gan ddysgu mwy am addysg uwch a'r llwybrau gyrfa sydd ar gael iddynt yn y dyfodol.

Bu disgyblion Blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn gweithdy cyffrous yn canolbwyntio ar ddylunio a datblygu diod egni, gan gyfuno creadigrwydd â gwybodaeth am faeth, marchnata a dylunio cynnyrch.

Roedd creadigrwydd hefyd yn amlwg wrth i ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 ddylunio logos newydd ar gyfer tai'r ysgol. Roedd safon y syniadau yn uchel iawn, a bydd y dyluniadau buddugol yn cael eu datblygu'n logos swyddogol i'w defnyddio mewn gweithgareddau a chystadlaethau'r tai yn y dyfodol.

Yn ogystal, bu disgyblion Blwyddyn 9 yn dylunio ac yn cynhyrchu medalau arbennig ar gyfer Eisteddfod yr ysgol, gan ddefnyddio eu medrau dylunio a gweithgynhyrchu i greu gwobrau unigryw a oedd yn ychwanegu cyffyrddiad arbennig at y digwyddiad.

Mae'r profiadau hyn yn dangos ymrwymiad yr adran i ddarparu cyfleoedd sy'n datblygu creadigrwydd, datrys problemau a medrau ymarferol, gan helpu disgyblion i weld sut y gellir cymhwyso eu dysgu yn y byd go iawn.

Diwrnod Gyrfaeodd Gwyrdd

Ar ddiwedd mis Mehefin, cafodd 10 o ddisgyblion Blwyddyn 8 a 9 gyfle i fynychu Diwrnod Gyrfaeodd Gwyrdd ym Mhlas Tan y Bwlch.



Yn ystod y dydd bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithdai difyr ac ymarferol gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Plas y Brenin, a'r ecolegydd Ben Porter. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i ddysgu am yr amrywiaeth eang o yrfaeodd sydd ar gael ym maes yr amgylchedd, cadwraeth a gweithgareddau awyr agored. Llongyfarchiadau mawr i'n disgyblion, a gafodd ganmoliaeth arbennig am eu hymddygiad rhagorol a'u hagwedd gadarnhaol drwy gydol y dydd, er gwaethaf y tywydd poeth iawn. Da iawn bawb!



Dyma rai o luniau Cyman a Simi o'r Eisteddfod

Tymor Prysur i'n Timau Chwaraeon

Mae wedi bod yn dymor prysur iawn i dimau chwaraeon Ysgol Eifionydd, gyda disgyblion yn cynrychioli'r ysgol mewn pêl-droed, rygbi ac athletau ledled y rhanbarth. Er nad oedd y canlyniadau bob amser o'n plaid, dangosodd ein disgyblion ymroddiad, gwaith tîm ac ysbryd chwarae rhagorol ym mhob cystadleuaeth.

Bu tîm pêl-droed bechgyn Blwyddyn 8 yn cystadlu yng Nghwpan Gwynedd yn Nhreborth, gan frwydro'n galed drwy'r twrnaint a sicrhau gêm gyfartal haeddiannol o 1-1 yn erbyn Ysgol Friars. Yn y maes rygbi, cafodd tîm Blwyddyn 7 brofiad gwerthfawr yng nghystadleuaeth Super 12's Meirion/Dwyfor, tra bu tîm Blwyddyn 9 yn mwynhau llwyddiant arbennig mewn gemau cyfeillgar, gan guro Ysgol y Berwyn (45-5), Ysgol Brynrefail (30-0) ac Ysgol Syr Hugh Owen (15-5).

Roedd cystadleuaeth Athletau NASUWT yn uchafbwynt arall i'r tymor, gyda bechgyn a merched Ysgol Eifionydd yn cystadlu'n arbennig o dda.

Ymhlith y bechgyn, gorffennodd tîm Blwyddyn 7 yn ail, gyda pherfformiadau rhagorol gan Kian Roberts (1af yn y ras glwydi a 2il yn y bicell), Joel Campbell (1af yn y ras 200m) a Simi Cook (1af yn y naid uchel). Sicrhodd Dyfan Pritchard ail safle yn y naid uchel ym Mlwyddyn 8, tra ym Mlwyddyn 9 a 10 bu Dyfan Price-Clishe, Callum Smith ac Iago Jones yn ennill eu digwyddiadau. Llwyddodd Owain Dafydd, Harry Hemmings-Chick, Dylan Shakespeare ac Ifan Shakespeare hefyd i sicrhau safleoedd ar y podiwm. Gorffennodd tîm Blwyddyn 9 a 10 yn 5ed, dim ond wyth pwynt y tu ôl i'r ail safle. Roedd y merched hefyd yn rhagori. Ym Mlwyddyn 7, enillodd Siwan Jones y ddisgen, gyda Rosey Stanley yn ail yn y pwysau ac Elena Roberts yn drydydd yn y bicell, gan helpu'r tîm i orffen yn 5ed. Ym Mlwyddyn 8, sicrhodd Isla Quaeck ail safle yn y ras glwydi, gyda'r tîm hefyd yn gorffen yn 5ed.

Roedd tîm merched Blwyddyn 9 a 10 yn arbennig o lwyddiannus, gan orffen yn 3ydd yn gyffredinol, dim ond un pwynt y tu ôl i'r ail safle. Ymhlith y perfformiadau gorau roedd Sadie Cook yn ennill y naid uchel, Daisy King yn ail yn y ras glwydi ac yn drydydd yn y naid hir, Pola Rosinska, Mia Roberts a Lisa Williams yn ennill ail safleoedd yn eu digwyddiadau, tra sicrhodd Mari Evans, Elaine Perry a'r tîm ras gyfnewid drydydd safleoedd.

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gynrychiolodd Ysgol Eifionydd y tymor hwn. Boed ar y cae, ar y trac neu yn y maes, mae eich ymroddiad, eich gwaith caled a'ch ysbryd tîm wedi bod yn destun balchder mawr i'r ysgol. Rydym yn edrych ymlaen at weld beth fyddwch yn ei gyflawni'r tymor nesaf.



Twrnament Rownderi Blwyddyn 7 ac 8. Llongyfarchiadau Dwyfor a Hebog!

Mae nifer o'n disgyblion hefyd wedi bod yn mwynhau llwyddiant arbennig ym maes chwaraeon. Mae Siwan Jones a Mari Evans wedi cael eu dewis i gynrychioli Clwb Pêl-droed Caernarfon, tra bod Mari Evans ac Elsa Edwards hefyd wedi ennill lle yng ngharfan Gwynedd. Llongyfarchiadau mawr iddynt ar y cyflawniadau gwych hyn.

Hoffem hefyd longyfarch Daisy King, sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ei gweithgareddau dawnsio a cheerleading, gan ddangos ymroddiad a thalent arbennig. Edrychwn ymlaen at glywed mwy am ei llwyddiannau yn y maes hwn.

CYHOEDDI CARFAN: SQUAD ANNOUNCEMENT

GENETHOD DAN 16 UNDER 16 GIRLS

— TYMOR / SEASON 2026/27 —

YSGOL DYFFRYN OGWEN

Abigail Burley

YSGOL EIFIONYDD

Mari Evans
Elsa Jane Edwards

Daeth yr ysgol ynghyd ar gyfer Mabolgampau'r Ysgol, gyda chystadlu brwd drwy gydol y dydd. Llongyfarchiadau mawr i enillwyr y teitlau Victrix Ludorum a Victor Ludorum: Anna Baillot a Paige Mulholland (Blwyddyn 7), Elenid Wynn (Blwyddyn 8), Mia Roberts (Blwyddyn 9), Pola Rosinska (Blwyddyn 10), Joel Campbell (Blwyddyn 7), Riley McGuigan (Blwyddyn 8), Ianto Madigan (Blwyddyn 9) a Lucas Smith (Blwyddyn 10). Yn y gystadleuaeth rhwng y tai, Hebog oedd yn fuddugol gyda 526 pwynt, Dwyfor (466 pwynt) a Glaslyn (373 pwynt). Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y diwrnod.

Her Marathon Llundain i'n Merched

Yn gynharach y tymor hwn, cwblhaodd disgyblion Blwyddyn 7, 8 a 9 Her TCS Marathon Llundain, gan ddangos penderfyniad, dyfalbarhad ac ysbryd tîm arbennig. Cafodd y merched eu hysbrydoli gan ddigwyddiad She Ultra Pen Llŷn, yn ogystal â champ arbennig Miss Elliw Haf-Roberts, athrawes Ffrangeg, a gwblhaodd Marathon Llundain. Drwy gydol yr her, bu'r disgyblion yn cefnogi ac yn annog ei gilydd, gan weithio gyda'i gilydd i gyrraedd eu nod.

Roedd yn bleser gweld cymaint o ymroddiad ac egni gan y merched, ac mae'r her wedi bod yn ffordd wych o hyrwyddo ffitrwydd, lles a hyder. Llongyfarchiadau mawr i bawb a gymerodd ran ar eu cyflawniad gwych.



Cystadlu brwd ymysg bechgyn a merched gyda'r bicell



Cyngor Cymreictod yn Dathlu'r Gymraeg

Mae wedi bod yn dymor prysur i Gyngor Cymreictod Ysgol Eifionydd, gyda'r aelodau'n trefnu amrywiaeth o weithgareddau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws yr ysgol.

Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd Eisteddf-OD Eifionydd 2026, wythnos llawn cystadlaethau hwyliog a chreadigol a roddodd gyfle i ddisgyblion gymryd rhan, magu hyder a defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol a chynhwysol. Yn ystod yr wythnos, bu disgyblion yn cystadlu mewn amrywiaeth o heriau, gan gynnwys llefaru darn heb atalnodi, dawnsio gwerin, darlunio ar y thema Cymru, creu cerddoriaeth gydag "offerynnau" anarferol, a hyd yn oed cystadleuaeth garglo cân!

Diolch yn fawr i aelodau'r Cyngor Cymreictod am eu gwaith caled yn trefnu'r wythnos, ac i'r aelodau o staff am feirniaidu a chefnogi'r gweithgareddau.



Diwrnod Gwobrwyo'r Ysgol

Ddydd Mercher, cynhaliwyd Diwrnod Gwobrwyo Ysgol Eifionydd i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion drwy gydol y flwyddyn. Cyflwynwyd gwobrau ym mhob pwnc ac ym mhob blwyddyn am berfformiad, ymdrech a chynnydd. Llongyfarchiadau i'r buddugwyr, a diolch i bawb am gyfrannu at flwyddyn lwyddiannus.



Diwrnod Iechyd a Lles Blwyddyn 9

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 ddiwrnod llawn hwyl, her a phrofiadau newydd fel rhan o'u Diwrnod Iechyd a Lles. Yn ystod y dydd, bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ymarferol, gan gynnwys sesiynau datrys problemau ac arloesi gydag Aled a Peredur Williams o Adran Dylunio Cynnyrch Prifysgol Bangor, a gweithdy coginio lle buont yn creu pizzas bendigedig gyda Ursula a Megan o Wasanaeth Bwyd Harlech.

Yn ogystal, mwynhaodd y disgyblion chwarae rownderi, cymryd rhan mewn sesiwn GwyltGrefft gyda Miss Mirain Rhys, ac roedd ganddynt gyfle i ddewis o blith nifer o weithgareddau cyffrous, gan gynnwys sesiynau harddwch gyda Miss Nia Jones, cwrs rhwystrau gyda Mr Gareth Crowe, golff gyda Mrs Lyn Parry Hughes a Mrs Helen Puw, neu daith Dug Caeredin i Flaenau Ffestiniog. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn, yn llawn cyfleoedd i ddatblygu medrau newydd, gweithio fel tîm a mwynhau profiadau gwerthfawr y tu allan i'r ystafell ddosbarth.



Taith Tren

Roedd diwedd y flwyddyn academiaidd ar gyrraedd a threfnwyd taith tren ar Reilffordd Ffestiniog i Flwyddyn 7 i olrhain taith y lechen o'r Blaenau i'r Port. Daeth pawb ynghyd i sgwrsio, chwerthin a gwerthfawrogi golygfeydd hyfryd lleol. Anghredadwy oedd ystyried mai nerth ceffylau fyddai 'di tynnu y wagenni yn ol i'r Blaenau yn y dyddiau diwydiannol cynnar!

Ymlaen a'n disgyblion i Flwyddyn 8 ym mis Medi gyda phob dymuniad da atynt bob un.



Ysbyty Dinorwig

Cafodd rhai o'n disgyblion Hanes Blwyddyn 10 ymweld ag Ysbyty Dinorwig, Llanberis ddechrau mis Gorffennaf. Buont yn archwilio'r ysbyty hanesyddol a chawsant gyfle i wneud eu meddyginiaeth lysieuol eu hunain.



Gweithdy Lles i Flwyddyn 9

Cafodd disgyblion Blwyddyn 9 gyfle i gymryd rhan mewn gweithdy arbennig ar lesiant, dan arweiniad Alaw Owen o Nerth dy Ben a Karen Wynne.

Cyflwynwyd y sesiynau mewn awyrgylch croesawgar, cefnogol a diogel, gan roi cyfle i'r disgyblion drafod pwysigrwydd gofalu am eu lles meddyliol, datblygu strategaethau cadarnhaol a meithrin dealltwriaeth o sut i ofalu amdanynt eu hunain ac eraill.

Roedd y gweithdy yn brofiad gwerthfawr a buddiol i'r disgyblion, ac rydym yn ddiolchgar iawn i Alaw a Karen am rannu eu harbenigedd ac am gyflwyno sesiynau mor ysbrydoledig a chefnogol.



Bu disgyblion Blwyddyn 8 yn mwynhau dwy daith awyr agored arbennig yn ddiweddar, gyda grwpiau'n mentro i fyny Glyder Fach a Moel Siabod. Drwy gerdded mynyddoedd a sgramblo mewn amgylchedd heriol, cafodd y disgyblion gyfle i ddatblygu eu sgiliau gwaith tîm, cyfathrebu a gwynwch. Roedd yn braf gweld pawb yn cefnogi ei gilydd, yn ymateb yn gadarnhaol i'r heriau ac yn mwynhau profiadau unigryw yng nghanol harddwch Eryri. Da iawn i bawb am eu hymdrech a'u hagwedd wych drwy gydol y teithiau.



Dysgu Sgiliau Achub Bywyd gyda Dŵr Cymru

Fel rhan o raglen lles a diogelwch yr ysgol, cafodd ein disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn cyflwyniad pwysig ar ddiogelwch dŵr gan Dŵr Cymru.

Drwy ddefnyddio enghreifftiau a senarios bywyd go iawn, cafodd y disgyblion eu hannog i feddwl am y peryglon sy'n gysylltiedig â dŵr ac i ddysgu sut i wneud penderfyniadau diogel wrth ymweld ag afonydd, llynnoedd, cronfeydd dŵr a'r arfordir.

Roedd y sesiwn yn brofiad addysgol gwerthfawr a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd ymwybyddiaeth, cyfrifoldeb a diogelwch personol. Hoffem ddiolch i Dŵr Cymru am ddarparu cyflwyniad mor amserol i'r disgyblion, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau a allai un diwrnod achub bywyd.



ANGORI I-RAGORI

Fel rhan o gynllun Angori i-Ragori, cafodd grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 10 gyfle i fynychu gweithdy Academi Seren Gwynedd yng Nghaernarfon.

Yn ystod y bore, bu'r disgyblion yn cymryd rhan mewn sesiynau rhyngweithiol dan arweiniad arbenigwyr a siaradwyr gwadd, gan archwilio amrywiaeth o lwybrau academaidd a gyrfaol, gan gynnwys meddygaeth, peirianeg, y gyfraith, y celfyddydau a'r cyfryngau. Roedd y gweithdy yn gyfle gwerthfawr i ehangu eu gorwelion, herio eu meddylfryd ac ysbrydoli eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ymweliad yn rhan o ddarpariaeth Angori i-Ragori Ysgol Eifionydd, sy'n cefnogi dysgwyr Mwy Abl a Thalentog drwy gynnig profiadau cyfoethogi, her academaidd a chyfleoedd unigryw mewn partneriaeth ag Academi Seren Llywodraeth Cymru.

Taith i Borth y Gest

Cafodd disgyblion Blwyddyn 8 a 9 gyfle i fwynhau taith gerdded hyfryd i Borth y Gest fel rhan o'u gweithgareddau lles diwedd tymor. Roedd y daith yn gyfle gwych i fwynhau'r awyr agored, treulio amser gyda ffrindiau a hyrwyddo iechyd a lles mewn amgylchedd hamddenol. Hoffem estyn diolch yn fawr i Mrs Elliw Haf-Roberts a Mrs Helen Puw am drefnu'r teithiau.



Haf Hapus i Bawb!

Diolch i bawb am dymor arall prysur, llawn llwyddiannau.

Mwynhewch wyliau'r haf, cadwch yn ddiogel, ac edrychwn ymlaen at eich croesawu'n ôl ym mis Medi.

Dyddiadau Pwysig

Bydd yr ysgol yn ailagor ddydd lau, 3 Medi, am 8.55yb.